# Astudiaeth Achos Academi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA)

Prifysgol Abertawe
Swansea University

## *Wiktoria Grzeszkowiak*

**BA (Anrhydedd) Addysg**

**Blwyddyn Graddio: 2022**



Wrth astudio ym Mhrifysgol Abertawe, cymerodd Wiktoria ran mewn amrywiaeth o wasanaethau cymorth Academi Cyflogadwyedd Abertawe gan gynnwys gweithdai cyflogadwyedd, y Cwrs Datblygu Gyrfa ac apwyntiadau un i un gyda'r Tîm Ymgynghori Gyrfaoedd.

Gwnaeth y cymorth oedd ar gael yn yr Academi helpu Wiktoria i ystyried ei hopsiynau ar ôl graddio, nodi ei hamcanion gyrfa a pha gamau yr oedd angen iddi eu cymryd i'w cyflawni.

Yn ei hapwyntiad Ymgynghori Gyrfaoedd, derbyniodd Wiktoria adborth ar ei datganiad personol, cyn mynd ymlaen i astudio ar gyfer ei TAR.

"Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe wedi cefnogi fy astudiaethau drwy roi imi lawer o sgiliau hanfodol a'm paratoi ar gyfer byd gwaith. Rydw i wir wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithdai cyflogadwyedd a chwblhau'r Cwrs Datblygu Gyrfa gan fod y ddau ohonynt wedi rhoi imi gyngor ymarferol ar ysgrifennu CV, llenwi ffurflenni cais a mynd i gyfweliadau.

Pan oeddwn i'n cyflwyno cais am fy TAR, roeddwn i'n gallu derbyn adborth ac arweiniad unigol ar fy natganiad personol drwy drefnu apwyntiadau un i un gydag Ymgynghorydd Gyrfaoedd a oedd yn hynod gymwynasgar a chefnogol. Hefyd cefais i gyfle i gael ffug gyfweliad a oedd yn brofiad gwerthfawr sydd wedi cynyddu fy hyder yn fawr.

Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe wedi fy helpu i benderfynu beth yw fy nodau o ran gyrfa a sut y gallaf eu cyflawni er mwyn bod yn athrawes ysgol gynradd."

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd sydd ar gael i fyfyrwyr a graddedigion diweddar, ewch i'n tudalen we:**
**myuni.swansea.ac.uk/cy/gyrfaoedd**